# PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Alun Mummery (Cadeirydd) |
| | **Yr Awdurdod Lleol** |
| | Y Cynghorwyr Kenneth P Hughes, Gwilym O Jones |
| **WRTH LAW:** | Mr J Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – CSYM)<br>Mrs Sian Purcell (Prif Swyddog – Medrwn Môn)<br>Ms Lindsey Williams (Lleisiau Lleol – Medrwn Môn)<br>Mr Andrew M Hughes (Medrwn Môn)<br>Ms Sandra Roberts (Age Cymru – Gwynedd a Môn)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Llinos Medi, R Meirion Jones<br>Mr Islwyn Humphreys (Samariaid)<br>Ms Eirian Wynne Williams (BIPBC) |

---

**1 CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Alun Mummery yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt hyd at ddiwedd Mawrth, 2018.

**2 IS-GADEIRYDD**

Gohiriwyd ethol yr Is-Gadeirydd tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2017 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**Yn codi o'r cofnodion:-**

**Eitem 6 – Lleisiau Lleol**

Cafwyd diweddariad gan Ms Lindsey Williams, Medrwn Môn ar y prosiect Lleisiau Lleol, a ddaeth i ben ddiwedd Mawrth, 2017. Dywedodd fod cyllid wedi'i ymestyn, o dan y Portffolio Lleisiau Lleol newydd, tan 31 Mawrth, 2018, gyda chyllid

ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer y prosiect "Llais Ni" (Cyngor Ieuenctid Môn). Nodwyd y byddai'r portffolio yn parhau i fod yn rhan o brosiectau sy'n ymwneud ag adeiladu cymunedau ar ôl Mawrth 2018, a byddai'r gwaith a fabwysiadwyd yn flaenorol gan Lleisiau Lleol yn parhau drwy'r Bwrdd Gwasanaeth ac Ymgysylltu.

## 5 GRWP TRYDYDD SECTOR

Ni thrafodwyd yr eitem hon.

## 6 CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT AR GYFER PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

Cyflwynodd Prif Swyddog Medrwn Môn fersiwn ddrafft o Gynllun Gweithredu i'r Pwyllgor o'r enw 'Gyda'n Gilydd', sef dogfen ar gyfer y bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Medrwn Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Nododd bod y Cynllun Gweithredu yn ddogfen weithredol sy'n esblygu'n barhaus.

**Gweithredu:**

- **Y Prif Swyddog, Medrwn Môn i drafod Y Cynllun Gweithredu drafft ymhellach gyda swyddogion o'r Cyngor;**
- **Cyflwyno diweddariad pellach i'r cyfarfod nesaf.**

## 7 CYLCH GORCHWYL AR GYFER Y PWYLLGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd 'Gylch Gorchwyl' y Pwyllgor fel y gellid adolygu ei gynnwys.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn at Eitem 2 - bod dwy sedd wag ar hyn o bryd ar gyfer aelodaeth y Trydydd Sector ar y Pwyllgor Cyswllt. Nodwyd fod gan y Sector dri aelod etholedig ar y Pwyllgor ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD: -**

**diwygio 'Cylch Gorchwyl' y Pwyllgor fel a ganlyn: -**

- **Adrannau 3-8 – newid y gair 'Bwrdd' i 'Pwyllgor';**
- **Adran 6 – bod y Pwyllgor yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn gyda'r amod y gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol os bydd angen.**
- **Bod y Prif Swyddog, Medrwn Môn yn hysbysebu'r ddwy swydd wag am gynrychiolwyr Trydydd Sector ar y Pwyllgor Cyswllt.**

## 8 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror a Medi 2018 er gwybodaeth ac i'w nodi.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y Rhaglen Waith yn cael ei diweddaru bob mis, a'i chyflwyno i'r Trydydd Sector er gwybodaeth. Mae hyn yn rhoi syniad da i'r Sector o'r hyn sy'n digwydd, ynghyd â

gwybodaeth sylfaenol i gefnogi ymgysylltu / mewnbwn gyda'r Sector.

## 9 Y CYFARFOD NESAF

Cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt am 2.00 pm ar 10 Gorffennaf 2018 yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm

**Y CYNGHORYDD ALUN MUMMERY**
**CADEIRYDD**